

Patrwm cyflwyno: O fis Hydref i fis Medi

Strwythur y modiwl

Modiwl 46 wythnos yw hwn sy'n cynnwys pedair rhan. Caiff myfyrwyr eu cefnogi gan eu tiwtor arbenigol, ond byddant yn rhan o garfan o fyfyrwyr ar gyfer y modiwl cyfan sy'n astudio canllaw astudio cyffredin (ar gyfer y modiwl cyfan) o adeg yr aseiniad a gaiff ei farcio gan diwtor (TMA) cyntaf. Mae Adran 1 (8 wythnos), sy'n arwain at TMA01, yn cynnwys deunydd arbenigol. Mae Adran 2 ac Adran 3 (18 wythnos) yn paratoi myfyrwyr ar gyfer TMA02, gyda 4 wythnos ychwanegol o ddeunydd (un uned) cyn Adran 4 (20 wythnos). Ar ôl TMA02 caiff myfyrwyr eu hannog i astudio'n annibynnol gyda chymorth tiwtor drwy diwtorialau 1:1 ac adborth ar benodau drafft o'r traethawd hir.

Disgrifiad o'r modiwl

Drwy astudio E822, bydd myfyrwyr yn cwblhau'r cymhwyster MA drwy ysgrifennu traethawd hir mewn un o ddwy ffurf. Eglurir ffocws y traethawd hir gan y tiwtor yn gynnar yn y modiwl er mwyn sicrhau ei fod yn berthnasol i'r cymhwyster a enwir a gaiff ei ddyfarnu. Gellir cynnal y gwaith ymchwil un ai fel ymchwiliad ar raddfa fach, a fydd yn cynnwys casglu data mewn lleoliad perthnasol, neu fel ymchwiliad estynedig, a fydd yn llunio cynllun ymchwil ar sail dadansoddiad estynedig o'r llenyddiaeth berthnasol. Mae gan y ddau fath o draethawd hir y potensial i lywio ymarfer a/neu waith ymchwil pellach, gan gynnwys astudiaethau doethurol.

Mae astudio E822 yn cynnig cyfle i fyfyrwyr archwilio'n eithaf manwl fater/her neu bwnc sydd o ddiddordeb iddynt yn bersonol a/neu'n broffesiynol, ac sy'n berthnasol i'w cymhwyster priodol, ac yn ystyrlon ac yn berthnasol i fyd addysg a/neu fywydau plant a phobl ifanc.

Nod cyntaf E822 yw galluogi myfyrwyr i feithrin y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau i weithio'n effeithiol fel ymchwilyr mewn cyd-destunau addysg ac mewn gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc. Bydd y modiwl hwn yn helpu myfyrwyr i ddatblygu'r galluoedd i ddeall ymchwil ac i gyfrannu ati yn eu cyd-destunau proffesiynol presennol neu yn y dyfodol.

Ail nod y modiwl yw helpu myfyrwyr i ysgrifennu traethawd hir yn llwyddiannus, gan ddarparu cymorth a chyfleoedd i ddatblygu a dangos hyder yn eu galluoedd ymchwil annibynnol. Mae'r modiwl hwn wedi'i gynllunio er mwyn eu helpu i ddeall eu safbwynt ymchwil eu hunain a'r ffordd y mae'n yn llywio'r ymchwil a wneir ganddynt (y cwestiynau a ofynnir, y cynllun a lunnir, y dulliau a ddefnyddir).

Rhagwelir y bydd y rhan fwyaf o'r myfyrwyr naill ai yn ymwneud â'r canlynol, neu yn bwriadu gweithio mewn rhyw ffordd ynddynt: cyd-destunau addysgol; a/neu gyda phlant; a/neu gyda phobl ifanc. Nod y modiwl yw eu galluogi i ddatblygu'n broffesiynol yn ogystal ag yn academiaidd, gan helpu'r rhai nad ydynt yn gweithio yn y sectorau hyn i ddechrau gweithio ynddynt. Cânt eu cefnogi drwy gynllunio datblygiad personol er mwyn dangos yn glir sut maent yn cael budd o astudio'r modiwl, gan gynnwys datblygu sgiliau personol a dealltwriaeth, drwy ofyn iddynt yn benodol gofnodi eu hunaniaeth ddatblygol fel ymchwilyr.

Mae E822 yn darparu ar gyfer myfyrwyr sy'n gallu manteisio ar leoliadau addysg neu leoliadau eraill er mwyn cynnal ymchwiliad ar raddfa fach (opsiwn 1), a hefyd y rhai nad ydynt yn gallu manteisio ar leoliadau o'r fath a/neu sy'n dymuno cynnal ymchwiliad estynedig (opsiwn 2) ar gyfer astudiaeth y gellir parhau â hi y tu hwnt i'r cymhwyster MA. Mae'r ddau fath o ymchwil yn adlewyrchu dulliau ymchwil presennol ym meysydd addysg a plentyndod ac ieuencid. Bydd myfyrwyr yn dysgu sut i arfarnu ymchwiliad yn foesebol. Ar gyfer opsiwn 1, cânt arweiniad ar y broses o gael caniatâd moesebol gan y lleoliad ymchwil o'u dewis cyn casglu data. Ar gyfer opsiwn 2 byddant yn llunio cynnig a fyddai'n ffurfio sail gadarn ar gyfer cael cymeradwyaeth foesebol gan y lleoliad ymchwil arfaethedig.

Un o nodweddion unigryw y modiwl hwn yw'r ffordd y bydd myfyrwyr yn gweithio gyda chymheiriaid a thiwtoriaid o feysydd arbenigedd gwahanol, gan hwyluso'r broses o gynnal trafodaethau ar draws gwahanol ddisgyblaethau a gwahanol safbwyntiau proffesiynol. Bwriedir i gynnwys y modiwl fod yr un mor berthnasol i fyfyrwyr, p'un a oes ganddynt gefndir yn, er enghraifft, y blynyddoedd cynnar, addysgu, arweinyddiaeth addysgol mewn amrywiaeth

o leoliadau, gwaith ieuentid, gwaith cymdeithasol, nyrsio a chwrsela, gwaith iechyd proffesiynol neu'r lluoedd arfog, yn ogystal â myfyrwyr sy'n gweithio, neu wedi gweithio, gyda phlant a phobl ifanc ar gamau datblygu gwahanol, o blentyndod cynnar i fyd oedolion ifanc. Bydd yr holl ddeunyddiau, canllawiau astudio ar-lein ac adnoddau clyweledol ar gael i fyfyrwyr ni waeth beth yw eu cyd-destun. Fodd bynnag, caiff myfyrwyr gymorth tiwtor sydd ag arbenigedd a phrofiad sy'n berthnasol i'w cymhwyster a enwyd ac, ar adegau, mewn grwpiau o fyfyrwyr sy'n gweithio ar ymchwiliad sy'n debyg i'w gwaith eu hunain.

Manyleb y person

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y modiwl hwn yn unol â [manyleb gyffredinol y person](#) ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a nodir yn y fanyleb gyffredinol, dylech feddu ar y canlynol:

- Gradd uwch berthnasol o leiaf ar lefel meistr ac yn ddelfrydol ar lefel doethuriaeth sy'n darparu gwybodaeth am ystod o
- methodolegau ymchwil sy'n berthnasol i addysg a / neu blentyndod ac ieuentid;
- profiad o oruchwylio myfyrwyr ar lefel ôl-raddedig (yn ddelfrydol mewn amgylcheddau dysgu ar-lein/o bell), gan gynnwys dealltwriaeth o anghenion dysgwyr sy'n oedolion, y mae llawer ohonynt yn gweithio neu â nifer o gyfrifoldebau;
- gwybodaeth am lenyddiaeth a dulliau ymchwil mewnol a/neu sy'n seiliedig ar yr ymarferydd, a dealltwriaeth ohonynt;
- gwybodaeth am ddysgu ac addysgu neu weithio gyda phlant a/neu bobl ifanc mewn lleoliadau sy'n darparu ar gyfer yr ystod oedran 3–19, a phrofiad ymarferol o hynny;
- profiad o addysgu myfyrwyr lefel meistr ar-lein, sy'n cynnwys: y gallu i feithrin dealltwriaeth a gwybodaeth feirniadol myfyrwyr a meithrin dealltwriaeth myfyrwyr o'r broses ymchwilio;
- tystiolaeth o annog deialog a rhyngweithio myfyrwyr mewn perthynas â dulliau cydweithredol o diwtora;
- tystiolaeth o ymrwymiad i ymgysylltu â chydweithwyr modiwlau eraill mewn gwaith addysgu tîm cydweithredol drwy diwtorialau ar-lein;
- ymrwymiad i ddarllen erthyglau newydd ar ymchwil ym maes addysg a/neu blentyndod ac ieuentid ac i rannu'r wybodaeth hon â chydweithwyr a myfyrwyr;
- y gallu i gyfrannu at y gwaith o ddatblygu 'cymuned ymchwil' a gwaith cydweithredol, a hynny yn y grwpiau tiwtorial a thîm y modiwl.

Byddai'n fanteisiol i chi feddu ar y canlynol:

- profiad o weithio gyda phlant a/neu bobl ifanc yn yr ystod oedran 3–19, mewn gwahanol leoliadau

Gwybodaeth ychwanegol

Mae'r modiwl hwn yn cynnig cyfle i diwtora ar fodiwl sy'n amlddisgyblaethol. Seilir grwpiau tiwtora ar y llwybrau arbenigol a'r rhaglenni y mae myfyrwyr wedi cofrestru arnynt o gam 2 ymlaen (yn cynnwys cam 2 a cham 3). Gweler uchod drosolwg o strwythur y modiwl er mwyn gweld lle y bydd myfyrwyr yn gweithio gyda deunyddiau arbenigol. Ar ôl TMA01, bydd llwybrau myfyrwyr yn dibynnu ar y math o draethawd hir y maent yn ei ddewis, gyda chymorth tiwtoriaid arbenigol a chanllaw astudio a fydd yn cynnwys amrywiaeth o ddeunyddiau enghreifftiol sy'n berthnasol i bob maes arbenigedd.

Ar gyfer cyflwyniad 20J, bydd y modiwl hwn yn recriwtio ar gyfer tiwtoriaid a myfyrwyr ym meysydd arbenigedd F70 Dysgu ac Addysgu ac F55 Plentyndod ac Ieuentid. Wedyn byddwn yn recriwtio ar gyfer 21J ym meysydd arbenigedd Ymrfer Cynhwysol ac Arwain a Rheoli. Rydym yn croesawu ceisiadau gan diwtoriaid sydd â phrofiad o fwy nag un o'r meysydd arbenigedd gan y bydd hyn yn rhoi'r hyblygrwydd i ni redeg grwpiau tiwtora sy'n cynnwys mwy nag un maes arbenigedd. Yn ogystal â gweithio gyda'ch grŵp tiwtora eich hun, byddwch yn cael y cyfle, yn benodol yn Adrannau 2-4, i weithio gyda thiwtorïaid o amrywiaeth o feysydd arbenigedd gan helpu i gynnal digwyddiadau dysgu ar gyfer y modiwl cyfan a chynnig cymorth tiwtora. Rydym yn edrych ymlaen at weithio gyda'r tiwtoriaid llwyddiannus i fapio'ch profiad a'ch arbenigedd i'r hyn rydym yn bwriadu ei gynnig o ran tiwtorialau ar gyfer y modiwl cyfan.

Manylion y modiwl - mae eglurhad llawn ar y wefan

Y credydau a gaiff eu dyfarnu i'r myfyriwr ar ôl cwblhau'r modiwl yn llwyddiannus:	60
Nifer yr aseiniadau a gyflwynir gan y myfyriwr:	2
Dull cyflwyno aseiniadau:	2
Lefel y gofynion TGCh:	3
Nifer y myfyriwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol:	15
Band cyflog:	9
Y nifer amcangyfrifedig o oriau fesul wythnos addysgu:	5

Nid yw'r strategaeth addysgu ac asesu ar gyfer y modiwl hwn wedi cael ei chymeradwyo eto, ac felly, mae'n bosibl y caiff y wybodaeth ei newid.